

# Queens of Syria

## Adnodd ystafell ddosbarth

# Cynllun Gwers

## Gwybodaeth gefndirol i athrawon

**Cysylltiadau â'r cwricwlwm:** Saesneg, Drama, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd, Dinasyddiaeth

**Sgiliau craidd:** Dinasyddiaeth, Cydweithio a chyfathrebu, Arweinyddiaeth myfyrwyr a datblygiad personol

Yn ôl ffigurau gan Uchel Gomisiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ffoaduriaid (UNHCR), mae'r gwrthdaro yn Syria wedi gorfodi bron i bum miliwn o bobl i adael eu cartrefi a chwilio am loches mewn gwledydd eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn fenywod a phlant sy'n byw mewn gwledydd cyfagos heb fawr ddim gobaith o ddychwelyd i'w mamwlad yn y dyfodol agos.

Yn 2013, daeth Refuge Productions â 60 o fenywod sy'n ffoaduriaid o Syria ac sy'n byw yng Ngwlad yr Iorddonen at ei gilydd i addasu a pherfformio trasiedi gwrth-ryfel Euripides, The Trojan Women. Nid oeddent erioed wedi actio o'r blaen ac mae'r darn anhygoel o theatr a gynhyrchwyd ganddynt yn gwau eu straeon eu hunain o fywyd fel ffoaduriaid a'u profiadau o ryfel a cholled gyda'r testun Groeg hynafol. Ym mis Gorffennaf 2016, gyda chefnogaeth Developing Artists sy'n elusen gofrestredig yn y DU, daeth y menywod i'r DU i berfformio eu drama mewn theatrau ledled y wlad. Roedd yn gyfle a fyddai'n newid bywydau'r ffoaduriaid eu hunain, ac yn brofiad a agorodd lygaid cynulleidfaoedd ym Mhrydain a gafodd y cyfle i glywed realiti bywyd fel ffoadur drostynt eu hunain.

Mae'r cynlluniau gwers hyn yn rhoi enghreifftiau o adnoddau a gweithgareddau er mwyn helpu eich disgyblion i ddysgu am y prosiect arloesol hwn, datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r sefyllfa yn Syria a'r gwledydd o'i hamgylch a realiti bywyd ar gyfer miliynau o bobl fel ffoaduriaid.



# Gweithgareddau

Darllenwch yr adroddiadau canlynol a ysgrifennwyd gan ddwy berfformwraig o'r ddrama sy'n egluro pam y gwnaethant adael eu cartrefi yn Syria ac yn disgrifio eu teithiau peryglus i Amman yng Ngwlad yr Iorddonen, lle y maent hwy a'u teuluoedd bellach yn byw fel ffoaduriaid. Gall disgyblion hŷn hefyd wylio'r ffilm fer o Maha yn siarad am sut y gwnaeth ddianc o Syria https://schoolsonline.britishcouncil.org/classroom-resources/list/queens-syria/media (Maha's journey).

**Mrs. Al S:** 'Gadawsom ein cymdogaeth yn gyntaf oherwydd un o'r ymosodiadau gerllaw a fwrodd ddinas *Al Sayyeda Zainab ym maestrefi deheuol Damascus* a symudon ni o gwmpas yn *Syria* cyn ffoi yn y pendraw i *Wlad yr Iorddonen* ddwy flynedd a hanner yn ôl. Sylweddolais fod yn rhaid i ni adael *Syria* yr eiliad yr ymosododd y fyddin ar ein hardal ac roedd tua 30 o danciau y tu allan ar y strydoedd. Ni allai unrhyw un adael ei gartref am bedwar diwrnod a chafodd pob cartref ei chwilio. Dyna pryd y gwnaethom ddweud wrth ein hunain nad yw'r lle hwn yn ddiogel i ni aros ynddo mwyach ac felly gwnaethom ffoi i *Wlad yr Iorddonen'.*

'Rwy'n cofio'r diwrnod y gwnaethom adael *Syria,* dywedodd fy ngŵr ei fod wedi trefnu i yrrwr ddod i'n casglu. Roeddwn mor ofidus ac roeddwn i'n llefain oherwydd nid oeddwn am adael. Roedd yn rhaid i mi bacio ein heiddo i gyd a pharatoi gyda dagrau yn rhedeg i lawr fy mochau. Daeth fy chwiorydd i gyd draw i ffarwelio â ni hefyd. Y bore wedyn gadawsom ac roeddem i gyd yn llefain drwy gydol y daith nes i ni gyrraedd y ffin. Roedd croesi'r ffin yn anodd i ni hefyd. Gadawsom *Syria* yn gyfreithiol gyda'n pasbortau, ond mae'r weithdrefn i'ch gadael i mewn i Wlad yr Iorddonen yn cymryd amser hir nes iddynt gytuno i'ch gadael i mewn ai peidio. Arhoson ni am 10 awr cyn i ni gael caniatâd i groesi i *Wlad yr Iorddonen'.*

Cymerodd amser hir i fy mhlant addasu. Rwy'n cofio pan symudon ni yma gyntaf roedd fy mab *Omar* yn arfer gweld eisiau'r bara yn *Syria* ac yn dyheu amdano, nid oedd yn hoffi'r bara yng *Ngwlad yr Iorddonen'*.

Mae fy mab bob amser wedi bod yn dawedog a gwnaeth ynysu ei hun oddi wrth bawb. Fodd bynnag, yn *Syria* roedd yn gyfarwydd â'r awyrgylch ac roedd yn gallu mynd i'r siopau a chwarae gyda chefndryd ac yn y bôn ryngweithio â'r byd hyd yn oed os oedd hynny ar raddfa fach. Ar ôl iddo ddod i *Wlad yr Iorddonen* daeth yn llawer mwy ynysig ac unig. Roeddwn i'n dioddef gydag ef a dechreuais erfyn arno i fynd allan o'r tŷ am hanner awr. Ni fyddai'n gwneud hynny, roedd yn gas ganddo'r ysgol ac roedd yn casáu siarad â phawb. Y cwbl a wnâi oedd aros gartref a syllu ar y teledu.

Ar ôl iddo ddechrau cymryd rhan mewn prosiect drama, sylwais sut y gwnaeth ei bersonoliaeth newid er gwell. Mae *Omar* yn dawel iawn ac yn fewnblyg, ond ar ôl iddo ymuno â'r ddrama dechreuais sylwi ei fod yn siarad, yn gwenu ac yn cymdeithasu'n fwy.

Gwnaeth fy merch ieuengaf *Leila* ddioddef hefyd yng *Ngwlad yr Iorddonen.* Aeth *Leila* yn fewnblyg ar ôl i ni gyrraedd yma ac ni siaradai lawer. Pan ddechreuodd hi yn yr ysgol sylwais yn fuan ei bod yn mynd yn grac ac yn ymosodol iawn gyda'r myfyrwyr eraill. Dechreuodd fod yn ymosodol gyda'i brodyr a'i chwiorydd gartref hefyd. Roedd bob amser yn agos ataf ac ni allai gysgu yn unrhyw le ond wrth fy ochr. Yn y pendraw es i â hi i **raglen y Ganolfan ar gyfer Dioddefwyr Artaith (CVT).** Gwnaeth y rhaglen helpu i newid ei chyflwr meddyliol yn fawr".

Roedd **Mrs. M** yn arfer bod yn berchen ar fferyllfa a bu'n gweithio fel fferyllydd yn Syria.

Mae ganddi bedwar plentyn. Tair merch *Amina, Maya a Sara* ac un bachgen bach newydd-anedig, o'r enw *Yousef.* Roedd *Mrs. M* yn sefydlog yn ariannol yn *Syria* gyda swydd ardderchog a oedd yn talu'r biliau a mwy. Mae'r teulu yn dod o Damascus. Yn fuan ar ôl i'r rhyfel ddechrau ac er bod yr ardal yn fwy diogel na llawer o ardaloedd eraill ac er nad oedd y rhyfel yn effeithio cymaint arni hi, roeddent yn dal i glywed sieliau a ffrwydradau.

Nid oedd y rhyfel wedi effeithio cymaint ar ei chwaer hŷn *Amina* a'r ieuengaf *Sara* ag ar y chwaer canol, *Maya.* Gwnaeth *Maya* ddioddef yn wael yn ystod y rhyfel; bob tro y byddai'n clywed y ffrwydradau byddai ei hwyneb yn troi'n felyn, byddai'n chwydu ac yn ysgwyd mewn ofn nes iddi bron â llewygu. Ar ôl iddi symud i *Wlad yr Iorddonen,* bob tro y byddai'n clywed ceir yn canu corn, tân gwyllt neu unrhyw sŵn uchel byddai'n cael yr un sgil-effeithiau sef llewygu, wyneb melyn a chwydu. Dechreuodd y sgil-effeithiau ddiflannu'n raddol dros gyfnod o ddwy flynedd, sef y cyfnod o amser mae wedi'i dreulio yng *Ngwlad yr Iorddonen.*

Roedd y sefyllfa yn *Syria* yn gwaethygu a chollodd y tair merch ddau fis o ysgol. Roedd y fam hefyd yn feichiog ar y pryd. Dyma pryd y symudodd y rhieni i *Wlad yr Iorddonen* i ddechrau bywyd newydd fel ffoaduriaid o Syria yn gobeithio cael hafan ddiogel i'w plant. Yn y pendraw rhoddodd y fam enedigaeth i *Yousef yng Ngwlad yr Iorddonen.*

Yn anffodus oherwydd cyfreithiau ynglŷn â ffoaduriaid ni allai'r naill riant na'r llall barhau i weithio yn eu maes.



## Cwestiynau i'w trafod gyda'ch disgyblion:

- Pam mae cymaint o bobl yn gadael eu mamwledydd ledled y byd ar hyn o bryd er mwyn mudo i wledydd eraill? Pa beryglon y gallent eu hwynebu ar eu teithiau?
- Siaradwch am sut brofiad yw gorfod gadael eich cartref a'ch ffrindiau yn ystod rhyfel a symud i wlad newydd. Ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi gorfod gadael ei famwlad naill ai yn y gorffennol neu'r presennol?
- Pam mae rhai pobl yn elyniaethus tuag at ffoaduriaid sy'n dod i fyw yn Ewrop?
- Sut y gallwn ni groesawu a helpu pobl i ymgartrefu yn ein hysgolion a'n cymunedau?


Cofiwch y gall y rhain fod yn faterion sensitif iawn i rai aelodau o'ch dosbarth.

Helpwch eich disgyblion i ddod o hyd i Syria a'r gwledydd cyfagos drwy ddefnyddio atlasau, globau neu feddalwedd fapio. Gofynnwch iddynt beth maent yn ei wybod am y sefyllfa bresennol yn y rhan hon o'r byd a thrafodwch rai o'r straeon newyddion diweddaraf am ymfudo a ffoaduriaid, drwy ddefnyddio papurau newydd a ffynonellau y gellir ymddiried ynddynt ar y Rhyngrwyd. Dylech ddarllen y rhain yn gyntaf er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn briodol ar gyfer eich disgyblion. Ceir enghreifftiau yn yr adran **Rhagor o Wybodaeth** yng nghefn y pecyn.

Llungopïwch y map ar **Daflen Weithgaredd 1** a gofynnwch i'ch disgyblion labelu Syria a'r gwledydd cyfagos a Môr y Canoldir a dangos taith un o'r teuluoedd.

# Taflen Weithgaredd 1 – Map o Syria a gwledydd cyfagos

- Labelwch wledydd Syria, Gwlad yr Iorddonen, Twrci, Libanus, Irac, Israel a Thiriogaethau Palestina, dinasoedd Damascus ac Amman a Môr y Canoldir ar y map.
- Dangoswch daith un o'r teuluoedd o Damascus i Amman. Yn fras, pa mor bell y gwnaethant deithio? Pe byddai'n rhaid i chi deithio yr un pellter o'ch cartref pa leoedd y gallech eu cyrraedd?



Pa bethau y byddai'n hanfodol eu cymryd ar daith hir fel hon yn eich barn chi? Gallai'r gweithgaredd canlynol, a luniwyd gan y British Council, o'r *Pecyn Ffoaduriaid Byw Gyda'n Gilydd* helpu eich disgyblion i ystyried y mater hwn ymhellach.

Gofynnwch i'ch disgyblion weithio mewn grwpiau bach. Rhowch gopi o'r cardiau ar **Daflen Weithgaredd 2** i bob grŵp. Gofynnwch iddynt dorri'r cardiau allan a'u gosod ar y bwrdd. Dywedwch wrth bob grŵp eu bod yn deulu sy'n gorfod gadael eu mamwlad yn gyflym a dod yn ffoaduriaid. Dim ond 10 munud sydd ganddynt i gasglu 10 peth i fynd â nhw gyda nhw i'w gwlad newydd. Cyn eu bod wedi'u trefnu'n iawn, gofynnwch i bob grŵp gyfnewid byrddau ag un arall i gynrychioli'r daith y maent wedi'i gwneud, gan fynd â'u 10 cerdyn gyda nhw.

Unwaith y byddant yn eu 'cartref' newydd dywedwch wrthynt fod eu hamgylchiadau wedi newid er gwaeth a'u bod bellach mewn sefyllfa lle mai dim ond pedwar o'r eitemau y gallant eu cadw. Pa rai y byddant yn eu dewis? Gofynnwch i'r grwpiau drafod ac wedyn gyfiawnhau eu dewisiadau. Arddangoswch y cardiau eitemau a ddewiswyd neu'r taflenni gwaith mewn lle amlwg, lle y gall pawb eu gweld.

Cymharwch ganlyniadau'r grwpiau.

- Oes unrhyw rai o'r eitemau a ddewiswyd yn gyffredin i bob grŵp?
- Trafodwch gyda'r myfyrwyr yr effaith y gallai rhywun yn cymryd eich eiddo oddi arnoch ei chael.

# Taflen Weithgaredd 2 – Pa eitemau y byddech yn mynd â nhw gyda chi?

Ffotograffau o'ch



Potiau coginio



Cyflenwad blwyddyn o'ch hoff fwyd



Rhywbeth a roddwyd i chi gan eich tad-cu a'ch mam-gu



Eich hoff lyfrau



Ychydig o arian



Blancedi/cwiltiau



Eich pasbortau a phapurau




Copi o'ch llyfr crefyddol



Dŵr potel



## Gwrthrychau gwerthfawr

Yn ystod rhyfel a gwahanu pan fydd pobl yn cael eu gorfodi i adael eu cartrefi, gall hyd yn oed y gwrthrychau mwyaf cyffredin ddod yn werthfawr. Roedd y gosodiad *Memoire(s) des Femmes* o'r arddangosfa *Syria:Third Space* yn cynnwys recordiadau o destimonïau gan fenywod o Syria a gafodd eu gorfodi i adael eu cartrefi, ochr yn ochr â ffotograffau o rai o'r gwrthrychau cyffredin sy'n dal atgofion arwyddocaol ac arbennig iddynt am eu cartref. Roeddent yn cynnwys y canlynol:

## Cylch allweddi siâp calon

*Ces i'r cylch allweddi hwn, gyda siap hanner calon, gan ffrind. Ryw ddiwrnod, roedden ni'n cerdded ac wedyn eisteddon ni mewn bwyty. Cawson ni ffrae ond wedyn gwnaethon ni ailgymodi a phenderfynon ni brynu rhywbeth gyda'i gilydd. Prynon ni'r cylch alweddi hwn. Cymerais i un hanner, a chymerodd hithau'r hanner arall.*



## Allweddi

*Rwy'n dal i gadw allweddi fy nhŷ achos fy mod i'n gwybod af i yn ôl ar ymweliad rywbryd.*



Gwrandewch ar y clip sain byr neu darllenwch hanes Reem o'i theimladau am adael Syria.

*Doeddwn i ddim eisiau gadael Syria o gwbl. Gadawsom ni ar ôl i ni symud o leiaf chwe gwaith o fewn Syria a darganfod nad oedd lle diogel i ni yno. Penderfynodd fy nhad bydden ni'n symud i Iorddonen. Roeddwn i'n erbyn hynny ar y dechrau, ond nawr, ar ôl ychydig o flynyddoedd, rwy'n meddwl iddo fod yn iawn. Roedd e'n meddwl amdanon ni, meddwl fel tad, roedd e'n meddwl amdanon ni, am fy mrawd, ac nawr rwyf mor hapus wrth feddwl am fy mrawd, achos roedd e, oherwydd ei oedran, yn gymwys i wneud y gwasanaeth milwrol, felly pe tasai fe wedi mynd i'r fyddin, byddai fe wedi marw neu wedi lladd pobl, felly nawr rwy'n teimlo, ie, rwy'n teimlo bod, diolch i Dduw, ein bod ni wedi gadael Syria i ddod i Iorddonen. Ond mae'n torri fy nghalon hefyd, achos dydy hi ddim yn beth hawdd, achos dy fod ti'n teimlo, bob dydd, bod dy gartref yn bell iawn oddi wrthot ti.*



*Ffotograffau o wrthrychau gwerthfawr a ddaeth o Syria, o'r Arddangosfa Syria: Third Exhibition*

Dewch â gwrthrych sy'n werthfawr i chi i mewn, wedi'i guddio mewn bag neu flwch. Dywedwch wrth eich disgyblion fod ganddynt ddeg cwestiwn i geisio dyfalu beth yw'r gwrthrych a pam mae'n werthfawr i chi. Dim ond ateb cadarnhaol neu negyddol y gallwch ei roi i'w cwestiynau. Dangoswch eich gwrthrych gwerthfawr i'r dosbarth ac esboniwch pam mae'n bwysig i chi.

Anogwch eich disgyblion i siarad â phartner am bethau sy'n werthfawr iddynt. O ble y daeth y gwrthrych, pam mae'n arbennig a sut y byddent yn teimlo petai'n rhaid iddynt ei adael ar ôl? Gofynnwch iddynt ysgrifennu disgrifiad creadigol o'r gwrthrych a ddewiswyd ganddynt a pham mae'n bwysig iddynt. Atgoffwch nhw i ddefnyddio geiriau a chymariaethau a ddewiswyd yn ofalus i gynhyrchu darn ysgrifenedig sydd wir yn creu darlun mewn geiriau. Gallech arddangos eu gwaith ysgrifenedig ochr yn ochr â ffotograffau o'u gwrthrychau, ond byddwch yn sensitif os na fydd rhai plant am siarad yn agored am eu gwrthrychau gwerthfawr.

Yn 2014, creodd yr arlunydd o Brydain Grayson Perry dapestri mawr gyda lliwiau llachar o'r enw *Comfort Blanket,* a ysbrydolwyd gan ffrind y gadawodd ei deulu Hwngari yn ystod yr ymosodiad Sofietaidd yn 1956. Mae'n disgrifio'r tapestri fel portread o Brydain sy'n cynnwys geiriau, ymadroddion a lluniau o wrthrychau yn gysylltiedig â 'Phrydeindod'.

Gofynnwch i bob pâr awgrymu tri gwrthrych neu lun i gynrychioli eich treftadaeth ddiwylliannol. Rhannwch y rhain gyda phâr arall ac yna casglwch y dosbarth at ei gilydd i rannu eu barn a'u syniadau y gellid eu cynnwys mewn gwaith celf enfawr i gynrychioli eich treftadaeth ddiwylliannol eich hun.

# Taflen weithgaredd 3



*Fideo gydag is-deitlau Saesneg*

Gwyliwch y ffilmiau byr sy'n dangos menywod o Syria yn siarad am y newid yn eu hamgylchiadau a'u bywydau newydd yng Ngwlad yr Iorddonen wrth i'w plant gyrraedd adref o'r ysgol. https://schoolsonline.britishcouncil.org/classroom-resources/list/queens-syria/media ("exile" a "homework")

Trafodwch sut oedd bywyd dyddiol y teuluoedd cyn i'r gwrthdaro ddechrau o gymharu â'u bywydau nawr. Pam mae perfformio yn y ddrama wedi bod mor bwysig iddynt, yn eich barn chi?

Dywedodd Khaula, aelod o'r cast: 'Daethom i mewn i gymdeithas newydd, ffordd newydd o fyw: roeddem wedi ein hynysu. Gwnaeth perfformio'r ddrama hon ein helpu i dorri'r iâ; dechreuon ni gysylltu ag eraill a gwneud ffrindiau. Rhoddodd y dewrder i ni roeddem ei angen i siarad am ein problemau yn onest ac yn glir. Teimlwn y gallwn wneud rhywbeth dros Syria, a phobl Syria, drwy anfon neges i'r byd i gyd – gobeithio y gall rhywun ein helpu ni i ddod â'r drasiedi hon i ben.'

Yn 1989, addawyd yr un hawliau i bob plentyn gan lywodraethau ledled y byd drwy fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r hawliau hyn yn disgrifio'r hyn sydd ei angen ar blentyn i oroesi, tyfu a chyrraedd ei lawn botensial yn y byd. Maent yn berthnasol i bob plentyn, ni waeth pwy ydyw nac o ble mae'n dod. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys:

- Byw, goroesi a datblygu
- Diogelwch rhag trais, camdriniaeth neu esgeulustod
- Addysg sy'n galluogi plant i wireddu eu potensial
- Mynegi eu barn a chael eu clywed.

Mae adroddiad gan *Achub y Plant* ym mis Mai 2016 yn dangos nad yw o leiaf 3.5 miliwn o blant sy'n ffoaduriaid o gwmpas y byd yn mynd i'r ysgol ar hyn o bryd. Trafodwch pam mae mynediad at addysg mor bwysig i'r plant sy'n ffoaduriaid.

Gofynnwch i'ch disgyblion geisio mwy o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a pha hawliau a ddylai fod gan bob plentyn, yn eu barn hwy. Trafododd disgyblion o Ysgol Gynradd Frances Olive Anderson y rhain gyda'u hysgol bartner yn Libanus ac yna gwnaethant greu A i Y o hawliau plant gyda'r ddwy ysgol yn darlunio llythyren bob yn ail. Anogwch eich dosbarth i greu eu fersiwn eu hunain gan weithio gyda dosbarth arall neu ysgol bartner os oes un gennych.

## Gweithgaredd ychwanegol

Gofynnwch i'ch disgyblion ganfod pwy yw eu Haelod Seneddol a'u Haelod o Senedd Ewrop. Efallai y gallent gysylltu â nhw i ddarganfod beth yw eu barn am fater ymfudwyr a ffoaduriaid? Os bydd eich disgyblion yn anghytuno â'u barn, neu'n teimlo'n gryf am y mater hwn, gallent ysgrifennu atynt i fynegi eu barn.




Gwaith celf gan ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Frances Olive Anderson ac Ysgol Mohammad Shamel, Beirut, Libanus

# Rhagor o Wybodaeth

**Ceir rhagor o wybodaeth am y prosiect Queens of Syria yn:**

- Gwefan prosiect Queens of Syria Developing artists http://test.developingartists.org.uk/our-projects/queens-of-syria:-jordan
- Erthygl yn y Guardian am y prosiect - http://www.theguardian.com/world/2016/apr/20/queens-of-syria-refugees-trojan-women-adaptation-uk-tour
- Cyfweliad gan y BBC – Rhaglen Ddogfen Queens of Syria - http://www.bbc.co.uk/programmes/articles/4yB2Cc6PJ2dXKb1NVkYh7Ty/queens-of-syria-how-50-women-made-award-winning-film

**Ceir rhagor o adnoddau a fideos i'w defnyddio mewn gwersi ar yr argyfwng yn Syria yn:**

- http://www.bbc.co.uk/newsround/16979186
- https://www.youtube.com/watch?v=UDy8_8L3s0A
- https://www.youtube.com/watch?v=MqMLmNqPuIQ

**I gael rhagor o wybodaeth a gweithgareddau i helpu eich disgyblion i ddeall materion sy'n gysylltiedig ag ymfudo a realiti bywydau ffoaduriaid o amgylch y byd ewch i:**

- Pecyn Addysg Byw Gyda'n Gilydd - https://schoolsonline.britishcouncil.org/sites/so/files/files/Living%20Together%20-%20Refugee%20Education%20Pack(3).pdf
- Adnodd Addysgu Ymfudo Lefel Gynradd - https://schoolsonline.britishcouncil.org/sites/so/files/bc_pri_migrants_110615.pdf
- Adnodd Addysgu Ymfudo Lefel Uwchradd - https://schoolsonline.britishcouncil.org/sites/so/files/bc_sec_migrants_110615.pdf

**Ceir adnoddau i'ch helpu i ddysgu mwy am yr Iaith a Diwylliant Arabaidd yn:**

- https://schoolsonline.britishcouncil.org/classroom-resources/list/arabic-language-and-culture

**I ddod o hyd i weithgareddau eraill ar gyfer myfyrwyr sy'n ymwneud â'r gwaith celf Syria: Third Space ewch i:**

- https://schoolsonline.britishcouncil.org/sites/so/files/syria_third_space_teacher_resources_-_print.pdf

**I gael rhagor o wybodaeth am ddrama Euripides Trojan Women ewch i:**

https://www.ucl.ac.uk/classics/classical-play/archive/2013TrojanWomen-studyinfo

**Mae'r ddogfen hon yn dangos Hawliau Plentyn y Cenhedloedd Unedig mewn iaith sy'n addas i blant:**

- http://www.unicef.org/rightsite/files/uncrcchilldfriendlylanguage.pdf

**Mae ffuglen i bobl ifanc am ffoaduriaid o amseroedd a lleoedd gwahanol yn cynnwys:**

- 'The Silver Sword' (1956) gan Iain Serraillier sydd wedi'i leoli yng Ngwlad Pwyl yn yr Ail Ryfel Byd
- Llyfr Elizabeth Laird 'Oranges in No Man's Land' (Haymarket, 2008) sydd wedi'i leoli yn Libanus ac sy'n canolbwyntio ar ymdrechion plentyn i gael triniaeth ar gyfer eu mam-gu sy'n sâl.

**Credits**

Written by Alison Willmott.

**© British Council 2016**
The British Council is the United Kingdom's international organisation for cultural relations and educational opportunities.